**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Culture, Welsh Language and Communications Committee
CWLC(5)-08-16 PTN3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Bethan.Jenkins@cynulliad.cymru

24 Hydref 2016

Annwyl Bethan,

Diolch am eich cais am fwy o wybodaeth yn dilyn Pwyllgor 14 Medi.

Dyma oedd y pwyntiau gweithredu dan sylw:

1. *"i chi ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am rannu'r cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg rhyngoch chi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg;*
2. *i chi ddarparu rhagor o wybodaeth inni am yr amserlen ar gyfer datblygu'r strategaeth iaith Gymraeg; ac*
3. *i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddarparu rhagor o wybodaeth am gylch gwaith Adolygiad Donaldson mewn perthynas â'r continwwm addysg Gymraeg."*

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i ymateb i'r trydydd pwynt ar wahân.

O ran rhannu'r cyfrifoldeb rhyngof fi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, fi sy'n gyfrifol am bob agwedd ar bolisi'r Gymraeg – mae hyn yn cynnwys goruchwylio a chydgysylltu polisi'r Gymraeg yn gyffredinol, swyddogaethau Gweinidogol sy'n deillio o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a Chomisiynydd y Gymraeg a'r iaith ym mholisi addysg.

O ran y Gymraeg ac addysg, fi sy'n gyfrifol am bob agwedd bolisi ar addysg Gymraeg a dwyieithog, gan gynnwys asesu a chymeradwyo Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rwyf hefyd yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog ym mholisi addysg yn ehangach.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran yr amserlen ar gyfer strategaeth y Gymraeg, y peth cyntaf i'w nodi yw y bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft yn cau ar 31 Hydref. Bydd hyn yn dylanwadu ar gynnwys y fersiwn derfynol, a gaiff ei chyhoeddi ar 1 Ebrill. Bydd y strategaeth newydd yn cynnwys map neu gynllun gweithredu, yn ogystal ag amserlen ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, yn nodi manylion yr hyn y mae angen inni ei wneud a'r hyn rydym am ei weld yn digwydd yn ystod y cyfnodau hynny. Dylid gosod hyn hefyd yng nghyd-destun Cynlluniau Strategol awdurdodau lleol o ran Cymraeg mewn Addysg, sydd i'w cyflwyno ym mis Rhagfyr, y newidiadau i addysgu a dysgu Cymraeg, a gwaith i lunio deddfwriaeth newydd ar y Gymraeg, sydd i ddechrau'r flwyddyn nesaf. Fel pecyn, bydd y gwaith hwn yn rhoi sylfaen gadarn inni symud tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Roeddech yn gofyn am eglurder hefyd ar y Fforwm Cyfryngau Annibynnol, ac a fydd yn ystyried materion sy'n berthnasol i mi ac i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am faterion yn ymwneud â'r cyfryngau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet a mi yn cydweithio i gytuno'n fanwl ar hyd a lled a chylch gwaith y Fforwm Cyfryngau; yn naturiol, bydd hyn yn cynnwys darlledu, sy'n perthyn i'm portffolio i. Mae swyddogion wrthi'n paratoi gwybodaeth bellach y byddwn yn ei hadolygu yn fuan. Bydd y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rwy'n sylweddoli bod gan y Pwyllgor ddiddordeb ym mhenodiad yr aelod dros Gymru ar Fwrdd newydd y BBC. Fodd bynnag, fel y dywedais yn ystod trafodaeth Llywodraeth Cymru ar Siarter y BBC ar 27 Medi, rwy'n ymwybodol o'r angen i barchu'r rhaniad rhwng y corff gweithredu a'r ddeddfwrfa. Hefyd, fel y gwyddoch, nid yw'r cyfrifoldeb polisi dros ddarlledu wedi'i ddatganoli. Cytunaf, fodd bynnag, â'r cydsyniad ynghylch gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer y pendodiad arbennig yma lle bo diddordeb sylweddol ac eang yn gyhoeddus yn ei gylch. Er bod cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol, caiff y gwaith recriwtio a phenodi ei reoli drwy un o brosesau Llywodraeth y DU. Nid yw'n broses sy'n cael ei phenderfynu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw felly o fewn cwmpas fy mhwerau i wneud darpariaethau ar gyfer hyn. Byddaf, fodd bynnag, yn ei drafod â'r Ysgrifennydd Gwladol a byddwn yn sicr yn disgwyl i unrhyw berson a benodir sicrhau eu bod ar gael i'r Pwyllgor at ddibenion craffu ar unrhyw adeg.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn, er gwybodaeth, at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mewn perthynas â Fforwm y Cyfryngau, ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn perthynas â'i hymrwymiad i ymateb i'r trydydd pwynt a rhannu ein cyfrifoldebau.

**Alun Davies AC / AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language